

Fforwm Cyllideb 24 Medi 2025

Cynnig i gael gwared ar gyllid dirprwyedig yr ysgol ar gyfer trwydded hawlfraint, aelodaeth Eteach a Cleapps

Hanes

Ar hyn o bryd, mae ysgolion yn derbyn swm o £147,000 wedi'i ddyrannu ar gyfer trwyddedau hawlfraint a ffioedd Eteach. Mae gan ysgolion yr opsiwn i ddefnyddio'r cyllid hwn i brynu i mewn i CLG, er mwyn caniatáu i'r Cyngor brynu trwyddedau yn ganolog ar ran pob ysgol, a gwireddu arbedion maint. Mae'r trwyddedau sy'n gynwysedig gan y ddau CLG (trwyddedau ac Eteach) wedi'u nodi yn y rhestr isod:

- Trwydded hawlfraint – trwydded gyffredin sy'n caniatáu copïo o lyfrau, cylchgronau, cyfnodolion a gwefannau, mae'r drwydded hefyd yn caniatáu defnyddio copïau ar gyfer byrddau gwyn digidol a meddalwedd cyflwyno.
- Cleapps – profion radon ac iechyd a diogelwch
- Trwyddedau teledu
- Trwyddedau radio
- Trwydded perfformiad ffonograffig
- Trwydded hawlfraint perfformiad cerddoriaeth
- Trwydded sgrinio fideo cyhoeddus
- Trwydded cerddoriaeth argraffedig
- Trwydded cofnodi addysg
- Eteach

Nid yw'r trwyddedau canlynol wedi'u cynnwys, ac ar hyn o bryd mae angen i ysgolion sy'n dymuno dal trwyddedau o'r fath brynu'r rhain ar wahân.

- Trwydded Hawlfraint yr Eglwys (sy'n cynnwys caneuon addoli) – (Nid yw hon yn cael ei phrynu ar ran pob ysgol, gan nad yw'n ofynnol gan bob ysgol)
- Motion Picture Licensing Company (yn cynnwys trwyddedu hawlfraint nad yw'n theatrig) (nid yw hon yn cael ei phrynu, gan fod y Ddeddf Trwyddedu Hawlfraint yn caniatáu defnyddio ffilmiau at ddefnydd addysgol)

Ar hyn o bryd, mae £147,000 yn cael ei ddyrannu i ysgolion i dalu am drwyddedau ac aelodaeth Eteach, fodd bynnag, amcangyfrifir bod y gost eleni yn £150,000.

Ar hyn o bryd, mae gan bob ysgol drefniant prynu'n ôl i'r CLG canolog i arbed costau. Gan fod pob ysgol fel arfer yn prynu'r CLG hwn, mae hon yn enghraifft o arian a ddyrannwyd i ysgolion sy'n cael ei drosglwyddo yn ôl i'r Awdurdod Lleol ar unwaith.

Mae rhai ysgolion hefyd yn prynu trwydded Hawlfraint yr Eglwys o'u cyllideb ddyranedig.

Cynnig

Er mwyn osgoi dyrannu arian i ysgolion y mae ganddynt ddewis cyfyngedig ond i ad-dalu, ac i arbed amser gweinyddol, cynigir y canlynol:

- Mae'r Gyfarwyddiaeth yn brigdorri'r swm o £160,000 o gyllideb ddirprwyedig yr ysgolion ac yn cadw'r cyllid hwn yn ganolog. (O fis Ebrill 2026)
- Bydd y gyllideb hon a gedwir yn ganolog yn cael ei defnyddio i brynu'r holl drwyddedau hawlfraint ac aelodaeth ar gyfer Cleapps ac Eteach ar ran pob ysgol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys taliadau trwydded hawlfraint yr Eglwys ar gyfer yr ysgolion hynny sydd angen hyn ar hyn o bryd.
- Ni fyddai'n ofynnol i ysgolion bellach gaffael eu trwyddedau eu hunain ar gyfer hawlfraint ac Eteach, na fydd bellach yn cael ei ddyrannu o fewn y fformiwla ariannu.